# Datganoli a phwerau

## Trosolwg


- Cyflwyniad
- Pwerau Deddfwriaethol
- Pwerau Cyllidol
- Beth mae hyn yn ei olygu i'r sector gwirfoddol


## Cyflwyniad

### Proses yw datganoli, nid digwyddiad.Devolution is a process, not an event.

Wedi'i sefydlu ym 1999 fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Senedd wedi ennill pwerau ychwanegol yn raddol. Paratôdd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 y ffordd ar gyfer refferendwm yn 2011, lle roedd mwyafrif y pleidleiswyr yn cefnogi rhoi pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad ar y pryd.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Datganolwyd pwerau ychwanegol o dan Ddeddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017. Rhoddodd Deddf 2014 bwerau codi trethi i Gymru am y tro cyntaf. Symudodd Deddf 2017 Gymru o'r model rhoi pwerau, lle gallai'r Senedd a Llywodraeth Cymru weithredu mewn meysydd datganoledig penodol yn unig, i fodel pwerau a gedwir yn ôl, lle gall y Senedd ddeddfu ar unrhyw bwnc oni bai ei fod yn un a gedwir yn ôl yn benodol i Senedd y DU.

Yn etholiad nesaf y Senedd, sydd wedi'i drefnu ar gyfer Mai 2026, bydd y Senedd yn ehangu o 60 i 96 o Aelodau ac yn mabwysiadu system etholiadol newydd. Am ragor o wybodaeth, gweler ein heglurydd ynghylch diwygio etholiadol.

## Pwerau deddfwriaethol

Mae gan y Senedd a Llywodraeth Cymru bwerau mewn ystod eang o feysydd polisi, gan gynnwys:

- addysg
- iechyd

- trafnidiaeth
- cynllunio
- datblygu economaidd
- gofal cymdeithasol
- gofal cymdeithasol
- y Gymraeg
- yr amgylchedd
- amaethyddiaeth a materion gwledig

Gallant gynnig polisïau ym mhob un o'r meysydd hyn ac mewn unrhyw faes arall nad yw'n faes a gedwir yn ôl yn benodol i Lywodraeth y DU. Mae hyn yn cynnwys y gallu i wneud deddfau newydd, a elwir yn ddeddfwriaeth sylfaenol. Gellir cyflwyno cynigion ar gyfer deddfau newydd, a elwir yn filiau, trwy'r canlynol:

- Llywodraeth Cymru
- aelodau unigol y Senedd (ASau)
- pwyllgorau'r Senedd
- Comisiwn y Senedd



Rhaid i bob bil gael ei gymeradwyo gan y Senedd cyn dod yn gyfraith.

Pan fydd deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei phasio, gall gynnwys pwerau i Ysgrifenyddion a Gweinidogion Cabinet Llywodraeth Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (eilaidd). Mae'r deddfau hyn yn cael eu gwneud o dan bwerau a ddirprwywyd gan y Senedd neu, mewn rhai achosion, Senedd y DU. Mae is-ddeddfwriaeth fel arfer yn cynnwys offerynnau statudol fel rheoliadau, gorchmynion, rheolau, cynlluniau, canllawiau, neu orchmynion lleol. Mae rhai o'r rhain angen cymeradwyaeth y Senedd.

Mae Senedd y DU yn cadw cyfrifoldeb am nifer o faterion a gedwir yn ôl, gan gynnwys:

- amddiffyn a materion tramor
- plismona a chyfiawnder troseddol
- y cyfansoddiad
- cyfraith cyflogaeth
- rheoleiddio elusennau a chodi arian
- diogelu defnyddwyr

# Pwerau cyllidol

Mae Llywodraeth Cymru'n cael ei chyllido drwy gyfuniad o:

- grant bloc blynyddol gan Lywodraeth y DU
- trethi Cymru
- pwerau benthyca cyfyngedig

Mae'r grant bloc yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio Fformiwla Barnett. Yn 2024–25, roedd cyllideb Llywodraeth Cymru oddeutu £23 biliwn. Nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ddilyn cynlluniau gwariant Llywodraeth y DU a gall osod ei chyllideb ei hun, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

## Fformiwla barnett

Mae Fformiwla Barnett yn penderfynu sut mae newidiadau yng ngwariant Llywodraeth y DU yn Lloegr yn effeithio ar grant bloc Cymru. Os yw Llywodraeth y DU yn cynyddu neu'n lleihau gwariant mewn maes datganoledig, fel iechyd, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn cynnydd neu ostyngiad cymesur mewn cyllid. Nid yw newidiadau gwariant mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, fel amddiffyn, yn effeithio ar y grant bloc.

## Pwerau treth

Yn dilyn Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017, enillodd y Senedd a Llywodraeth Cymru reolaeth dros nifer o drethi Cymru, gan gynnwys:

- Treth Gwarediadau Tirlenwi
- Treth Trafodiadau Tir (a elwid gynt yn Dreth Stamp)

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno trethi newydd yng Nghymru, fel yr Ardoll Ymwelwyr y cyfeirir ati yn aml fel y 'dreth dwristiaeth'.

Mae gan Gymru reolaeth rannol dros dreth incwm hefyd. Gall Llywodraeth Cymru amrywio cyfraddau treth incwm hyd at 10 ceiniog yn y bunt. Er enghraifft, gall osod y gyfradd sylfaenol unrhyw le rhwng 10c a 30c. Yn wahanol i'r Alban, ni all Cymru greu bandiau treth newydd na newid trothwyon. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cadw'r cyfraddau yn unol â'r rhai a osodwyd gan Lywodraeth y DU.

## Pwerau Benthyca

Ers 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu benthyca hyd at £500 miliwn i fynd i'r afael â diffygion mewn refeniw treth datganoledig. Gall hefyd fenthyca hyd at £1 biliwn ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, gyda therfyn blynyddol o £150 miliwn. Gellir defnyddio benthyca cyfalaf ar gyfer prosiectau fel seilwaith newydd, adeiladu, neu gynnal a chadw sylweddol.

# Beth mae hyn yn ei olygu i'r sector gwirfoddol

Wrth geisio dylanwadu ar lywodraeth, mae'n hanfodol deall pa lefel o lywodraeth sy'n gyfrifol am eich maes diddordeb. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau o ddydd i ddydd yng Nghymru, megis iechyd, tai, addysg, gofal

cymdeithasol, a llywodraeth leol, wedi'u datganoli. Fodd bynnag, mae meysydd pwysig fel plismona, cyfiawnder troseddol, a lles yn feysydd a gedwir yn ôl i Senedd a Llywodraeth y DU. Mae deall ble mae pwerau yn eistedd yn helpu i sicrhau eich bod chi'n cyfeirio eich ymdrechion dylanwadu at y lle iawn, gan arbed amser a chynyddu effaith.

Mae deall ble mae pwerau yn eistedd yn helpu i sicrhau eich bod chi'n cyfeirio eich ymdrechion dylanwadu at y lle iawn, gan arbed amser a chynyddu effaith.

Mae hefyd yn bwysig ystyried pa mor hygyrch yw gwahanol sefydliadau. Yn gyffredinol, mae'r Senedd yn llai o faint ac yn fwy agored na Senedd y DU. Rydych yn llawer mwy tebygol o gwrdd â Chadeirydd Pwyllgor y Senedd neu Ysgrifennydd Cabinet Cymru na rhai cyfatebol yn Llywodraeth y DU. Bydd ehangu'r Senedd ar ôl etholiad 2026 yn debygol o greu cyfleoedd pellach i ymgysylltu.

Nid yw hyn yn golygu y dylech osgoi dylanwadu ar San Steffan. Yn hytrach, mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd deall y gwahanol strwythurau a phwyntiau mynediad o fewn sefydliadau gwleidyddol Cymru a'r DU fel y gallwch deilwra'ch dull yn effeithiol.